------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 8 Chwefror 2018

Rhag-gyfarfod Aelodau: 10.15

Amser: 10.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Claire Morris**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6355

SeneddIechyd@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (10.15 - 10.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ymchwiliad i weithgaredd corfforol ymhlith plant a phobl ifanc - sesiwn dystiolaeth 1 - Ray Williams

(10.30 - 11.15) (Tudalennau 1 - 5)

Ray Williams, Canolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi ac Ynys Môn

## 3 Papurau i'w nodi

**3.1 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 - llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch rhoi Rhan 5 y Ddeddf ar waith**

(Tudalennau 6 - 9)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 5 Ymchwiliad i weithgaredd corfforol ymhlith plant a phobl ifanc - trafod y dystiolaeth

(11.15 - 11.25) (Tudalennau 10 - 24)

**Egwyl (11.25 - 11.30)**

**6 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) – briff technegol**

(11.30 - 12.15) (Tudalennau 25 - 29)

**Egwyl (12.15 - 12.30)**

**7 Ymchwiliad i weithgaredd corfforol ymhlith plant a phobl ifanc – gweithgarwch ymgysylltu**

(12.30 - 13.15) (Tudalennau 30 - 33)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L-VG-0019-18

Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

[redacted]

30 Ionawr 2018

Annwyl Dai,

O ystyried diddordeb y pwyllgor yn ystod proses Bil Iechyd Cyhoeddus (Cymru), ac yn arbennig ynghylch pennu oed priodol ar gyfer gosod cyfyngiad ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff, meddyliais y byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi y bydd Rhan 5 (Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff) o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 yn dod i rym ar 1 Chwefror.

Bydd y cychwyniad yn gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i bobl ifanc a phlant dan 18 oed yng Nghymru. Hefyd, bydd **gwneud trefniadau** i gyflawni'r fath driniaeth ar berson dan 18 oed yng Nghymru yn drosedd. Ni fydd person dan 18 oed yn gallu rhoi ei ganiatâd i roi twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac ni all rhiant neu warcheidwad roi caniatâd ar ran person ifanc i roi twll mewn rhan bersonol o'i gorff.

Rwy'n bwriadu cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ar 1 Chwefror i nodi dechreuad y darpariaethau hyn, ac rwy'n atodi copi o'r Datganiad yn **Atodiad 1** at eich sylw.

Mae fy swyddogion yn symud ymlaen ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth i hysbysu rhanddeiliaid allweddol y bydd y darpariaethau Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff yn dod i rym ar 1 Chwefror 2018. Y rhanddeiliaid allweddol yw ymarferwyr tyllu'r corff, pobl ifanc a rhieni, awdurdodau lleol, yr heddlu, Llysoedd, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, ysgolion y gyfraith, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd Lleol (gan gynnwys Nyrsys Ysgol ac Ymwelwyr Iechyd).

Bydd yr ymgyrch yn codi ymwybyddiaeth ymhlith busnesau/ymarferwyr tyllu'r corff i'w hysbysu am gynnwys y ddeddfwriaeth a bydd yn defnyddio rhwydweithiau rhanddeiliaid a chyfryngau cymdeithasol, a chysylltu'n uniongyrchol (trwy awdurdodau lleol) â'r sawl y gwyddys eu bod yn cynnig gwasanaeth tyllu'r corff.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
[redacted]

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hefyd, bydd yr ymgyrch yn tynnu sylw pobl ifanc a rhieni at y ddeddfwriaeth newydd a'r materion diogelwch plant ac iechyd posibl sy'n ymwneud â thyllu'r corff. Mae hyn yn debygol o gynnwys cysylltiadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol a gwaith gyda mudiadau ieuenctid/ysgolion.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

**ATODIAD 1**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Darpariaethau Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff o fewn Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 yn dod i rym** |
| **DYDDIAD** | **1 Chwefror 2018** |
| **ERBYN** | **Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Daw Rhan 5 (Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff) o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 i rym heddiw.

Mae cychwyniad y darpariaethau hyn yn gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plant a phobl ifanc dan 18 oed yng Nghymru. Hefyd, mae bellach yn drosedd trefnu i gyflawni triniaeth o'r fath ar rywun dan 18 oed yng Nghymru. Mae deg rhan bersonol o'r corff wedi'u nodi yn y Ddeddf gan gynnwys tethi, bronnau, organau cenhedlu, ffolennau a thafod, ac mae hyn yn berthnasol i bob rhyw.

Ni fydd person dan 18 oed yn gallu rhoi caniatâd i roi twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac nid yw rhiant neu warcheidwad yn gallu rhoi caniatâd i roi twll mewn rhan bersonol ar ran person ifanc.

Y nod yw gwarchod plant a phobl ifanc rhag y niwed posibl i'w hiechyd a all gael ei achosi wrth roi twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac osgoi amgylchiadau lle rhoddir plant a phobl ifanc mewn sefyllfa lle gallent fod yn agored i niwed. Nod y darpariaethau hyn yw lleihau'r achosion o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â thyllu rhannau personol o'r corff (gan gynnwys heintiau ac anafiadau) ymhlith pobl ifanc pan fo'u cyrff heb orffen aeddfedu, ac sydd o bosibl yn llai abl i gyflawni'r gofynion ôl-ofal.

Mae Rhan 5 yn darparu ar gyfer y canlynol:

- yng Nghymru, mae rhywun sy'n gwneud trefniadau neu sy'n mynd ati i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person dan 18 oed yn cyflawni trosedd. Felly mae gwneud trefniadau penodol i gyflawni'r weithred o dyllu person heb fod unrhyw dyllu wedi digwydd yn ddigon i olygu bod trosedd wedi'i chyflawni.

- mae'n amddiffyniad os yw'r ymarferydd wedi credu bod y person yn 18 oed neu'n hŷn a'i fod wedi cymryd camau rhesymol i sefydlu faint yw ei oed, neu na allai neb fod wedi amau o olwg y person ei fod o dan 18 oed. Hefyd, mae amddiffyniad 'diwydrwydd dyladwy' i berson sydd wedi'i gyhuddo o drosedd yn rhinwedd camau a gymrwyd gan rywun arall.

- mae'n amddiffyniad os gall y person a gyhuddwyd o'r troseddau hyn ddangos iddo gymryd pob cam rhesymol a gweithredu diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r

drosedd, er enghraifft rhoi hyfforddiant i'w staff neu roi systemau ar waith i osgoi cyflawni'r drosedd.

- mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflawni camau gorfodi mewn perthynas â'r darpariaethau, gan gynnwys gwneud erlyniadau, ymchwilio i gwynion a chymryd camau eraill.

- rhaid i awdurdodau lleol ystyried, o leiaf unwaith bob 12 mis, i ba raddau mae'n briodol iddynt gyflawni rhaglen o gamau gorfodi yn eu hardal i atal tyllu rhannau personol o gorff pobl dan 18 oed, a rhaid i awdurdodau lleol benodi 'swyddogion awdurdodedig' i gyflawni'r dibenion hyn.

- wrth gyflawni rhaglen o gamau gorfodi, rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu a gall yntau gynorthwyo awdurdodau lleol i orfodi'r darpariaethau.

- darperir pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol a'r Heddlu, er y bydd angen gwarant gan Ynad Heddwch er mwyn cael mynediad i leoliad sydd hefyd yn dŷ annedd heb gael caniatâd y meddiannydd. Unwaith y bydd y swyddog neu'r aelod o'r heddlu wedi cael mynediad, gall gynnal archwiliad o'r safle a chael copïau o gofnodion megis teledu cylch cyfyng neu ddogfennau caniatâd.

- ynghyd â phwerau mynediad mae trosedd gysylltiedig o rwystro swyddog rhag gweithredu ei bwerau a chamau diogelu mewn perthynas â defnyddio pwerau mynediad ac archwilio trwy ddarparu mecanwaith i apelio yn erbyn mynd ag eiddo i ffwrdd, a gwneud cais am iawndal dan rai amgylchiadau.

Mae darpariaethau llawn Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 ar gael yma:

(Cymraeg) http://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh

(Saesneg) http://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon